# CWLWM




**MAI 2024**

Rhif 71

**Golygydd:**

**Einir Jones**

**Pris 50c**

***Taflen Gyswllt Mudiad Chwiorydd Bedyddwyr Cymru***

## ***Cynnwys***


***Golygyddol***

***Gair gan Deb Stammers, is-lywydd y Mudiad 2023-24***

***Cynhadledd Pum-Mlynyddol Chwiorydd Bedyddiedig Ewrop Ynghyd, 2023***

***'Codi'r Llen. Merched yr Hen Destament a'u Dewisiadau'***

***Mair, 1911-2002***

***Teisen Datys Gloria***

***Hysbyseb***

***Cwis: Pwy Freuddwydiai?***

***Cerdd***

***Dydd Gweddi'r Byd***

***Atebion y Cwis***

***Adroddiad yr Ysgrifennydd***

# Golygyddol

Roeddwn i'n pregethu ym Methlehem Porthyrhyd un bore'n ddiweddar ac wrth fynd i mewn fe welais ôl traed diddorol a pharhaol. Coch oedden nhw ac yn pwyntio at stepen a drws ffrynt y capel. Roedd rhywun deche (deheuig) – adeg wedi Covid siwr o fod - wedi rhoi gwadnau esgidiau neu trainers mewn paent coch a'u stampio ar y concrid ger y stepen i ddangos y ffordd i mewn.

(Ddigon posib bod pâr yn pwyntio'r ffordd arall wrth ddrws y festri cofiwch, edrychais i ddim**!)**

**"*Gwylia ar dy droed wrth fyned i mewn i Dŷ Dduw*"** oedd yr arwydd ar sawl wal capel uwch y pulpud neu uwchben y drws ffrynt slawer dydd.

Hynny ydyw, byddwch yn fyfyriol a pharchus a pheidiwch â rhuthro yn ddifeddwl na gwthio am le ac ystyriwch ble mewn gwirionedd rydych chi.

Bellach wrth gwrs does dim rhuthr na gwthio am le yn unman mewn unrhyw gapel! Rydyn ni'n lwcus bellach – pregethwyr cynorthwyol fel fi – os cawn ni'r *Magic Number 8* o gynulleidfa. Ond er hynny, fe hoffwn i weld mwy o bobl yn dilyn y marciau coch ac yn dod i'r capel a ffeindio Duw trwy Iesu Grist.

A sut daw pobl i wybod amdano? Trwyddoch chi a fi wrth gwrs. Nid clwb o bensiynwyr parchus, mewnblyg, crefyddol yn cwrdda am awr yr wythnos i rannu eu diflasdod yw eglwys Iesu Grist i fod ond man byw a bywiog, man sy'n bleser mynd iddo, man sy'n llawn o gariad Iesu. Ie, man lle rydyn ni'n cymryd cariad Duw a'i basio ymlaen yn ein bywydau i eraill – ie, paganiaid – sydd yn yr un byd a ni ac yn yr un pentref neu dref.



Pan oeddwn i'n blentyn roeddwn i'n dysgu stribedi o adnodau yn ôl yr arferiad bryd hwnnw ac yn eu plith, hon, ***"A phreswyliaf yn Nhŷ yr Arglwydd yn dragywydd".***

“***Hold on!***” meddwn i wrthyf fy hun, yn dragwydd yn y capel?

Ych! Allwn i fel plentyn ddim meddwl am ddim byd mwy diflas!

Ond fe ddyweda’i nawr fel yr hen Jacob yn deffro o’i freuddwyd efo cric yn ei wddw,

***“Onid oes yma dŷ i Dduw a dyma borth y Nefoedd.”***

A bellach wrth edrych yn ôl ar fy mhrofiadau, rwy’n gorfod dweud fy mod yn gefnogwraig ôl traed coch sydd yn arwain pobl o’r byd hwn i’r Nefoedd.

*Einir Jones (Gol.)*

***Os garech gyfrannu i’r rifyn nesaf gydag erthygl, cerdd, emyn, hanes a.y.y..b., anfonwch i’r cyfeiriad arferol os gwelwch yn dda.***

***Carn Ingli, 97 Ffordd y Coleg, Rhydaman. SA18 2BT***

***Neu ebost: einir.jones@yahoo.co.uk / jtalfryn@yahoo.co.uk***

**Paid ag Ofni**

“Paid ag ofni.” meddai’r angel
“Cefaist ffafr yng ngolwg Duw.”
“Peidiwch ofni.” wrth fugeiliaid
Annysgedig, gwaela’n fyw.
“Peidiwch ofni.” wrth bysgotwyr
“Dala dynion fyddwch mwy.”
“Peidiwch ofni grym y tonnau
Cerddais atoch drostynt hwy.”

“Peidiwch ofni’r cwmwl golau.”
“Peidiwch ofni. Gwag yw’r bedd.”
Geiriau’r angel yn yr ogof,
“Cododd Crist ar newydd wedd!”
“Peidiwch ofni.” wrth ddisgyblion,
“Dewch i gyffwrdd llaw a chlwy’
Rwyf yn fyw, Byw fyddwch chwithau.”
Pam yr ofnwn ninnau mwy?
*Einir Jones*

# Gair gan Deb Stammers,

## Is-lywydd y Mudiad

## 2023-24



*Deb Stammers*

Eleni, bydd Cyfarfodydd Blynyddol Mudiad y Chwiorydd yn dod i Ynys Môn!

Fy enw i ydy Deb Stammers, Gweinidog cenhadol gyda Chymanfa Bedyddwyr Môn ers 2020, ac ar hyn o bryd yn is-lywydd y Chwiorydd. Mae'n fraint cael dilyn fy ffrind Siân Elin fel Llywydd, y gwnes i hyfforddi gyda hi yng Ngholeg Bedyddwyr Caerdydd. Fel person Saesneg sydd wedi dysgu Cymraeg fel oedolyn ar ôl tyfu fyny yn Lloegr, mae traddodiadau'r Chwiorydd yn eithaf newydd i fi, ond gobeithio y cawn amser bendigedig gyda'n gilydd ym mis Medi.

I chi sy ddim yn fy 'nabod, rwyf yn byw yng Ngogledd Cymru rwan ers rhyw ugain mlynedd. Mae fy ngŵr, Jon, yn dod o Fangor yn wreiddiol, a phan benderfynais astudio gwaith cymdeithasol, roedd o'n hapus iawn i ddod adref er mwyn i fi gael mynd i Brifysgol Bangor. Roeddwn i'n weithiwr cymdeithasol yng Nghyngor Gwynedd ac Ynys Môn, yn y maes cyfiawnder ieuenctid ac wedyn maethu a mabwysiadu. Trwy'r amser hwnnw, roeddwn yn brysur yn dysgu Cymraeg, a chawsom ein bendithio â dau o blant, Bethan (14) a Ioan (11). Buom yn byw am 14 mlynedd ym Methesda, Gwynedd, lle'r oeddem wrth ein bodd i fod yn rhan o'r gymuned.

Yn 2020, cefais fy ngalw i Weinidogaeth Dwy Ran yma yn Ynys Môn. Hanner yr amser, rwyf yn weinidog ar gapel hyfryd Saesneg yng Nghaergybi, New Park Street Chapel. Fe blannwyd y capel o

Fethel Caergybi yn 1861, pan roedd nifer o weithwyr Saesneg yn cyrraedd y dref i helpu adeiladu'r morglawdd a'r rheilffordd. Gwelaf hon yn anrheg genhadol fendigedig gan y Cymry i'r Saeson.

Yn addas iawn, fy rôl arall yw fel gweinidog cenhadol ymhlith cymunedau Cymraeg Ynys Môn. Fel Saesnes sydd wedi cael y fraint o ddysgu'r iaith, mae gen i galon i weld Cymry Cymraeg yn dod i ffydd fyw yn Iesu. Mae'n teimlo fy mod i rywsut yn cwblhau cylch hardd.

Un o'r cymunedau rwyf wedi bod yn gweithio ynddynt yw Llannerchymedd, tref farchnad hanesyddol rhwng Llangefni ac Amlwch, a dyma lle byddwn ni'n cynnal ein cyfarfodydd ym Mis Medi.

Fel thema, rwyf wedi dewis adnod o lyfr Jeremeia, sy'n cymharu person sy'n ymddiried yn yr Arglwydd i goeden wedi'i phlannu wrth y dyfroedd (Jeremeia 17:7-8). Rwy'n gobeithio y bydd llawer ohonoch yn gallu ymuno â ni, ac yn edrych ymlaen yn fawr at ddod i'ch adnabod yn well!

**Manylion y Cyfarfodydd**:

**Dyddiad:** **Dydd Mercher, 11 o Fedi, 2024**

**Amserlen:** 2.00yp: Cyfarfod y Prynhawn

4.00yp: Te Prynhawn

5.30yp: Oedfa'r Hwyr

**Lleoliad:**

Cyfarfodydd - Capel Tabernacl, Water St,

Llannerchymedd LL71 8DR

**Te**:

Caffi Stesion, Llannerchymedd LL71 8EU

**Cost y te fydd £10 y pen**.

I archebu tocyn te, plîs cysylltwch â fi cyn 31 Gorffennaf:

*deb.stammers@btinternet.com*

07949 493219

# Cynhadledd Chwiorydd Bedyddwyr Ewrop Ynghyd yn Riga, Latfia, 5 -8 Hydref 2023

## *Adroddiad gan Ruth Davies*




Braint oedd cael cynrychioli Mudiad Chwiorydd Bedyddwyr Cymru yn y gynhadledd a chael rhoi Cymru ar y map. Roedd dros 30 o wledydd yn cael eu cynrychioli a thua 100 o gynrychiolwyr o wledydd Ewrop, Y Dwyrain Canol a rhan o Asia. 'Heddwch heb ei Ail' *(Unsurpassing Peace)* oedd thema'r gynhadledd yn seiliedig ar adnod o'r Philipiaid, Pennod 4:7, 'A bydd tangnefedd Duw, sydd goruwch pob deall, yn gwarchod dros eich calonnau a'ch meddyliau yng Nghrist Iesu.'

**Dydd Mercher, 4ydd Hydref**

Cychwynais ar fws o Gaerdydd ac aros noson mewn gwesty hwylus ym maes awyr Gatwick gan fod yr hediad i Riga yn gynnar yn y bore. Braf oedd cael cwmni Eleri yn Gatwick a chyd - deithio gyda hi i Latfia. Ar ôl taith hwylus o ryw 2 awr 10 munud, rhyddhad oedd cael cyrraedd Riga ac un o'r chwiorydd oedd ynglŷn â'r gynhadledd yn ein cyfarfod. Roeddem yn aros yng Ngwesty *Rixwell Elefant* ac yr oedd y gynhadledd hefyd yn yr un gwesty. Mae'r gynhadledd wedi'i chynnal yn flynyddol ers

75 mlynedd bellach ac yr oedd yn ddathliad arbennig eleni oherwydd hynny. Bob pum mlynedd mae swyddogion newydd yn cael eu hethol.

**Dydd Iau, 5ed Hydref**

Ar ôl cinio, trefnwyd defosiwn byr, ac yna gyda Fabienne Seguin, y Llywydd presennol yn arwain, cafwyd myfyrdod ganddi. Canolbwyntiodd ar stori Moses yn arwain yr Israeliaid o'r anialwch (Exodus14:20-22). Hanfod ei neges oedd fod y byd yn llawn trais, ond fod Duw yna i ni a byth yn newid. 'Rhof fy ysbryd ynoch, a gwneud i chwi ddilyn fy neddfau a gofalu cadw fy ngorchmynion'. (Eseciel 36:27).

Cawsom anerchiad gan Lywydd Undeb Bedyddwyr Latfia ac yn dilyn, anerchiad gan Karina Liepina, Llywydd Undeb Chwiorydd Bedyddwyr Latfia.

Cyn diwedd y noson fe enwyd pob gwlad oedd wedi anfon cynrychiolydd a chyflwynwyd llygad y dydd, sef blodyn cenedlaethol Latfia i bob un a dangoswyd llun o flodyn cenedlaethol pob gwlad oedd yn cael ei chynrychioli. Braf oedd gweld llun y cennin pedr ar y sgrïn fawr!

**Dydd Gwener, 6ed Hydref**

Cynhaliwyd Cwrdd Gweddi ac yna sesiwn o ddefosiwn byr o dan arweiniad Karina Liepina. Darllenwyd cyfarchion gan Alan Donaldson, Ysgrifennydd Cyffredinol Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop.

Cyflwynwyd Karen Wilson, Llywydd Cynghrair Bedyddwyr y Byd – Chwiorydd sy'n dod o Awstralia. Hi oedd prif siaradwraig y gynhadledd. Mae'n debyg mai un o uchafbwyntiau'r gynhadledd i mi oedd ei hanerchiad hi. Yn ôl Karen nid oedd ganddi fawr o uchelgais pan oedd yn ifanc ond sylweddolodd fod y byd yn newid a bod Duw yn galw arnom ni ferched i wneud llawer mwy ac i fod yn fwy dewr. Cyfeiriodd at Effesiaid 3:20, 'Iddo ef, sydd â'r gallu ganddo i wneud yn anhraethol well na dim y gallwn ni ei ddeisyfu na'i ddychmygu, trwy'r gallu sydd ar waith ynom ni….'. Cred llawer ohonom nad ydym yn ddigon da nac yn ddigon galluog ond mae Duw yn ein galluogi i fyw 'tu hwnt' *(beyond).* Mae'n holl bwysig i ni ddal ati, i ddilyn y llwybr y mae Duw wedi'i ddewis i ni, ac i sefyll yn gadarn.

Ar y pnawn Gwener fe gynhaliwyd tri gweithdy. Bum i yng ngweithdy Jenni Entrican o Fryste. 'Buddsoddwch yn Nuw, ynoch chi eich hunain ac mewn eraill' oedd testun y gweithdy. Roedd yn gwrs i alluogi merched i gymryd rhan a bod yn fwy blaengar a hy-

derus. Rhagflas o'r cwrs gawsom ni oherwydd ei fod yn gwrs dros bedwar diwrnod, yn cael ei redeg dros sawl mis. Dyfynnodd Jenni o Salm 138:3, 'Pan elwais arnat, atebaist fi, a chynyddaist fy nerth ynof.'

Gweithdy hynod o bwerus, un yr hoffwn ei weld yn y Gymraeg ac yn cael ei redeg i ni chwiorydd yng Nghymru.

Cynhaliwyd dau weithdy arall ar yr un adeg. Un yn canolbwyntio ar sut i wynebu pryder ac ofn mewn amser ansicr, a'r llall yn ymwneud â byw bywyd rhydd.

Bu cyfle hefyd i glywed am weithgareddau a thystiolaeth chwiorydd o nifer o wledydd megis Yr Iorddonen, Libanus, Gwlad Belg, Macedonia, Sbaen a Moldofa. Gwnaeth hyn i mi sylweddoli'r grym a'r dylanwad y gall gweinidogaeth chwiorydd ei gael. Roedd un chwaer o Libanus yn adrodd am yr erledigaeth roedd hi a'i chyd-aelodau yn wynebu yn gyson. Ychydig a sylweddolwn gymaint o aberth yw hi i rai ddilyn y ffydd Gristnogol. Mae hyd yn oed ei theulu ei hun wedi cefnu arni hi a'i phlant yn llwyr oherwydd eu bod yn Gristnogion.

**Dydd Sadwrn, 7fed Hydref**

Ar ôl cyfarfod busnes yn y bore a'r cyfle i bleidleisio dros swyddogion newydd, cawsom fynd mewn bws o amgylch dinas Riga. Yna cerdded i weld rhai o adeiladau hanesyddol y ddinas gyda'n tywysydd yn rhoi'r cefndir hanesyddol a diwylliannol i ni.

Ar y nos Sadwrn cawsom wledd o fwydydd traddodiadol y wlad a'n difyrru gan grŵp o ferched ifanc yn eu gwisgoedd traddodiadol.

**Dydd Sul, 8fed Hydref**

Aethom i eglwys Fedyddiedig yn Riga a chael pregeth gan Merritt Johnston o Mecsico, sef Cyfarwyddwr Gweithredol Cynghrair Bedyddwyr y Byd – Chwiorydd. Roedd y bregeth yn Saesneg ac un o'r diaconiaid yn cyfieithu i'r Latfieg yn effeithiol iawn. Braf oedd cael rhannu cymun gyda nifer dda o deuluoedd o Riga. Merritt Johnston sy'n cyflwyno Oedfa Weddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd i ni eleni ac edrychwn ymlaen i fod yn rhan o'r digwyddiad fyd-eang ar 6ed Dachwedd.

Bu'r holl brofiad yn agoriad llygad, ac yr oedd yn hyfryd cael cymdeithasu a rhannu cymaint gyda chriw o ferched dewr a defosiynol o nifer o wledydd gwahanol. Yn bendant roedd yn brofiad sydd wedi fy ysbrydoli a gwneud i mi syleddoli cymaint yn fwy y dylwn wneud i rannu cariad Crist.

# Cynhadledd Pum-Mlynyddol Chwiorydd Bedyddiedig Ewrop Ynghyd 2023

***Eleri Lloyd Jones***



Ar ddechrau mis Hydref cafodd Ruth Davies, Caerdydd, a finnau'r fraint o gynrychioli Undeb Bedyddwyr Cymru yng Nghynhadledd Pum-mlynyddol Chwiorydd Bedyddiedig Ewrop Ynghyd yn Riga, Latfia. Roedd 80 o chwiorydd o 30 o wledydd yn bresennol, gan gynnwys o'r Dwyrain Canol a Chanolbarth Asia.

Dyma lun ohonom yng nghyntedd gwesty'r Eliffant ble cynhaliwyd y gynhadledd (sylwer ar y cerflun ar y chwith!).

Bob pum mlynedd bydd y CBEY yn cwrdd mewn cynhadledd arbennig i ethol swyddogion newydd ac aelodau o'r pwyllgor rheoli ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Eleni am y tro cyntaf cafodd merch o'r Dwyrain Canol ei dewis yn llywydd sef Siham Daoud o Libanus. Mae gweddill y swyddogion a'r pwyllgor yn dod o Slofacia, Latfia, Gwlad Pwyl, Iwcrain a Sbaen. Yn ein plith hefyd oedd Merrit Johnston o'r UDA a Karen Wilson o Awstralia, ar ran Adran Gwragedd Cynghrair Bedyddwyr y Byd. Cynulliad rhyngwladol yn wir!

Karen oedd yn ein harwain mewn dwy sesiwn ar thema'r gynhadledd, sef "tangnefedd Duw sydd goruwch pob deall" (Philip.4:7). Cafwyd gweithdai pwrpasol hefyd ar ddatblygu arweinwyr newydd ymhlith merched; ar fyw bywyd rhydd; a sut i wynebu pryder ac ofn mewn amseroedd ansicr. Ar adegau cafwyd cyfle i glywed am waith a thystiolaeth chwiorydd o sawl gwlad wahanol gan gynnwys Macedonia, Libanus, Moldofa, Sbaen a Gwlad Belg. Diddorol oedd clywed Americanes wedi priodi dyn o'r Iorddonen yn sôn am ei bywyd fel gwraig gweinidog yno. Roedd yn amheuthun sylweddoli gymaint o waith mae gwragedd yn ei wneud dros yr Efengyl ar draws Ewrop a'r Dwyrain Canol.

Rhag ofn eich bod yn meddwl ein bod yn gaeth i'r gwesty trwy'r adeg, cafwyd trip prynhawn Sadwrn i ganol Riga, i gael blas ar ychydig o'i hanes a'i bensaernïaeth arbennig. Roedd ein tywysydd yn ferch ffraeth a bywiog, yn amlwg yn falch iawn o'i gwlad a'i chenedl. Er bod Latfia wedi cael ei feddiannu gan sawl ymerodraeth ar draws y canrifoedd, y cyfnod anoddaf iddynt oedd cyfnod y Natsïaid yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac yna'r Undeb Sofietaidd am dros ddeugain mlynedd. Fel ni'r Cymry cafodd pobl Latfia eu herlid am siarad eu hiaith eu hunain, yn enwedig yn yr ysgolion, a dathlu eu hanes a'u diwylliant. Enillwyd annibyniaeth o Rwsia yn 1991 a daeth Latfia yn aelod o NATO a'r UE yn 2004. Ers hynny maent wedi gweithio'n galed i ailsefydlu Latfeg fel iaith y mwyafrif yn hytrach na Rwseg. Ac y mae canol Hen Riga yn werth ei weld - er bod y tywydd yn ein herbyn!

Y noson honno cawsom sesiwn gyda chwiorydd hawddgar Latfia yn ysblennydd yn eu gwisg genedlaethol yn cyflwyno blas o'u hiaith a'u diwylliant inni. Roeddent yn cael hwyl yn dysgu inni ddawnsio a chwarae gêm draddodiadol. Cawsom flasu rhai o fwydydd arbennig Latfia hefyd amser swper. Diolch iddynt i gyd am eu croeso a'r gofal amdanom yn ystod y gynhadledd.

Ar fore Sul, sef diwrnod olaf y gynhadledd, cawsom y fraint o gael ymuno mewn oedfa gymun yn un o gapeli Riga. Roedd y gwasanaeth yn ddwyieithog gyda'r gweinidog yn siarad Latfeg ac un o'r diaconiaid yn cyfieithu i'r Saesneg. Cafwyd pregeth rymus yn Saesneg gan Merrit Johnson hefyd. Arweiniwyd y canu gan ferch ifanc gyda llais godidog. Roedd hi'n braf cael rhyw flas ar addoliad yr eglwys leol yn Riga. Er gwybodaeth, roedd y gynulleidfa yn cynnwys croesdoriad da o oedrannau a nifer o deuluoedd ifanc - arwydd go dda o ffyniant yr Efengyl yn Latfia.

Er mai Saesneg yn anorfod oedd iaith y gynhadledd roedd hi'n braf clywed gymaint o ieithoedd gwahanol yn cael eu siarad o gwmpas y bwrdd bwyd ac yn y cymdeithasu.

"Mewn Undod mae Nerth" yw'r ystrydeb ac mae hynny'n wir. Ond diolch i Dduw hefyd am gael gymaint o amrywiaeth tu fewn i'r Undod hwnnw!


.




*Dyma fi a Heidi o'r Swistir yn sefyll gyda baner y gynhadledd.*

# Lansio 'Codi'r Llen: Merched yr Hen Destament a'u Dewisiadau'

**Ruth Davies**




*Llun: Aled Davies Cyhoeddiadau'r Gair*

Roedd nos Wener, 24 Tachwedd 2023, yn noson i'w chofio i rai ohonom yn Y Tabernacl, Caerdydd. Roeddwn eisiau prosiect yn ystod fy mlwyddyn fel Llywydd y Mudiad. Derbyniais her gan y Parchedig Aled Davies i gyfieithu'r llyfr '*Unveiled: Women of the Old Testament and the choices they made*' gan Clare Hayns.

Cefais gymorth gan amryw o'm cyd-aelodau – Gwenllian Edwards, Zohrah Evans, Anna Gruffudd Fleming, Calan McGreevy a Lisa Tiplady yn ogystal â dwy ffrind, Eluned Edwards a Bethan Whittall sy'n aelodau yn Salem, Treganna. Daeth criw da ynghyd i'r lansiad, ac ar ôl i'r Parchedig Ddr. Rosa Hunt groesawu pawb, arweiniwyd ni mewn defosiwn gan Bethan a Zohrah cyn cael cyflwyniad gan y Parchedig Aled Davies. Darllenwyd sawl myfyrdod o'r llyfr er mwyn cael blas o'r cynnwys. Cyflwynodd Aled gopi o'r llyfr i mi a chefais innau gyfle i ddiolch i bawb fu'n cynorthwyo gyda'r gwaith. Fy nymuniad oedd cyflwyno'r gyfrol i Rosa, fy ngweinidog, i ddathlu blwyddyn gyntaf ei gweinidogaeth arnom yn Y Tabernacl; am ei chariad, ei hysbrydoliaeth diflino, ac am fod yn esiampl i ni gyd i'w hefelychu.

Mae'r ymateb i'r llyfr wedi bod yn galonogol iawn a sawl eglwys yn defnyddio'r gyfrol fel sail neu faes llafur i'w Dosbarthiadau Beiblaidd. Mae'n gyfrol hardd sy'n llawn lluniau lliw gan yr artist Micah Hayns, sef mab yr awdur.

Efallai fod rhai ohonoch wedi gwylio'r rhaglen 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol' ar nos Sul, 10 Mawrth. Roeddem yn dathlu Sul y Mamau a Diwrnod Rhyngwladol y Merched tua'r un adeg. Cafodd Rosa ei chyfweld gan Lowri Morgan a bu'n ddewr iawn yn sôn am y modd mae hi yn delio gyda marwolaeth disymwth ei mab cyn y Nadolig 2023. Rhoddwyd tipyn o sylw i'r gyfrol 'Codi'r Llen' hefyd a gwerthwyd 100 o gopïau ychwanegol yn dilyn y rhaglen. Da chi, mynnwch gopi o'r gyfrol sydd wedi'i chyhoeddi gan 'Cyhoeddiadau'r Gair'.

## Croesawu Gofalaeth Bro Cemaes Dyffryn Teifi i'r Brifddinas

Pan ddaeth Llywydd presennol y Mudiad, y Parchedig Sian Elin Thomas i'r Tabernacl i bregethu ym mis Chwefror eleni, fe ddaeth â chriw o'r ofalaeth yn gwmni iddi! Cymerwyd rhan gan nifer o'r unigolion yn y gwasanaeth bore a bu Natalie Morgan yn cynorthwyo yn y gwasanaeth hwyrol. Braf oedd cael eu cwmni a bu cymdeithasu difyr yn y festri uchaf dros ginio a baratowyd iddynt gan aelodau'r Tabernacl. Cyflwynwyd llun o fynyddoedd y Preseli ar lechen a matiau bychain o eglwysi'r ofalaeth yn rhodd i'r Tabernacl fel arwydd o'u gwerthfawrogiad.

# Mair
# 1911—2002

## Buddug Medi



*Buddug Medi*

Pan ddaeth y dydd yn 2002 i ymadael â'r byd yma, 'doedd yr un gair am hynny ar y cyfryngau. Gwraig a garodd yr encilion oedd hi, gwraig a weithiodd yn ddiarbed, yn dawel gyda phopeth a roddodd amgylchiadau iddi.

Rhaid mynd yn ôl i ddechrau'r daith, i'r flwyddyn y coronwyd Siôr V yn frenin Prydain a chymylau'r Rhyfel Byd Cyntaf yn crynhoi ar y gorwel. Mewn rhes o fythynnod a godwyd ar gyfer chwarelwyr yng Nglyndyfrwy, Meirionnydd y ganwyd Edith Mair i David Salisbury Davies ac Annie ei wraig. Edith Mair oedd enw chwaer ei thad a fu farw'n ddeunaw oed pan gymrodd dillad gwely dân, a llosgodd Edith i farwolaeth. Roedd Dilys, chwaer Mair, bum mlynedd a hanner yn hŷn na hi ac yn mynychu Ysgol Brydeinig y pentref pan anwyd Mair. Etifeddodd y chwaer ieuengaf geffyl pren a daeth hwnnw yn hoff degan. Ond roedd prinder tegannau a thlodi'r oes yn achos i rywun ddwyn y ceffyl pren oddi ar y ferch fach.

Drws nesaf i'r teulu roedd Catherine Jones y fudwraig yn byw. Gwisgai Catherine ddillad llaes, tywyll bob amser, haf a gaeaf. Chwaraeai Dilys a Mair â'u doliau un pnawn. Daeth y fudwraig i lawr y grisiau a dweud "Mae gennych chi chwaer fach!"

Rhoddodd y ddwy eu doliau heibio ar unwaith – roedd nyrsio babi iawn yn llawer gwell!

Ond chafodd Mair na Dilys gyffwrdd â'r babi bach. Roedd yr hyn a elwid ar y pryd, Y Pla Du, yn yr ardal. A bu Gertrude farw o'r aflwydd hwnnw, yn ddeg diwrnod oed. Rhoddwyd y fechan mewn arch gyda chlwstwr o flodau Tlws yr Eira ar ei mynwes. Dwy ferch yn eu harddegau oedd y cludwyr. Yn bump oed daeth Mair yn gynefin â galar.

Yn 1916 a hithau'n amser i Mair gael addysg ffurfiol roedd Ysgol y Cyngor, Glyndyfrdwy yn dair oed a Miss Williams - hen wraig fach gron a'i gwallt yn britho, yn dysgu'r babanod. Pan gamodd Mair i 'Standard Wan' Evan Moses Jones oedd y Prifathro, gŵr tal gyda gwallt aur, crychiog. Gwisgai faneg am un law bob amser. "Mae o wedi brifo yn y rhyfel" sibrydai'r plant.

Roedd rhyddid i'r babanod i siarad Cymraeg â'r athrawes, ond disgwylid i bawb siarad Saesneg gyda'r Prifathro. Wrth chwarae pêl a marblis ar fuarth yr ysgol, yn y Capel ac yn yr Ysgol Sul, Cymraeg oedd yr iaith. Derbyniodd Mair y drefn. Âi adref o'r ysgol i gael cinio a'i gwaith yn union wedi bwyta oedd rhedeg am y cwt moch. Yn groes i draddodiad lleolwyd hwn o flaen y tŷ.  Bob amser cinio cai'r ddau fochyn a gedwid ganddynt (un at iws y tŷ a'r llall i'w werthu'n ddarnau i gymdogion) eu gollwng yn rhydd. Ond rhaid oedd gofalu nad aent o'u libart. Dysgodd Mair mai 'deuddeg ugain'  oedd pwysau delfrydol mochyn, neu byddai'r cig yn rhy fras.

Cai Mair wersi piano, neu a bod yn fanwl gywir, gwersi organ. A'r rheswm am hynny oedd mai organ oedd yr unig offeryn ar yr aelwyd.

Ond pwysai'r athrawes ar ei rhieni i brynu piano. Cynigiodd D.R. Meredyth, Dolgellau archebu piano - (Roedd D.R yn gefnder i mam.) -o'r Almaen gan fod ei blant yn awyddus. Derbyniwyd y cynnig. Erbyn hyn roedd hi'n 1921 a heddwch yn bodoli rhwng y gwledydd. Gwerthwyd yr organ, Rhedai'r ferch fach i'r orsaf bob dydd a'r un fyddai'r cwestiwn. "Ydi'r piano wedi cyrraedd?" Ac yna, fel pe na byddai'n amau gwybodaeth y gweithiwr, byddai'n edrych i mewn drwy ffenest yr ystafell lle cedwid y nwyddau cyn eu dosbarthu. Chafodd Mair ddim gwybod pris y piano ond clywodd gan gymdogion iddi gostio canput. Ond pwy a ŵyr? Yn ddeuddeg oed daeth yn gynefin ag aberth.

Doedd gan Mair ddim blewyn o eisiau mynd i Ysgol Ramadeg y Merched yn y Bala pan eisteddodd yn Ysgol Cae Top, Corwen, i lenwi papur y *sgolarship*. Ond mynd fu raid, gan wisgo'r dillad nefi blŵ bondigrybwyll a'r cap – un tebyg i het nyrs ardal, a'r llythrennau BCS ar y blaen – *Bala County School*. Derbyniodd y lifrau'n ddigwestiwn. Wedi'r cyfan roedd yna un fantais o fod yn ddisgybl yn Ysgol y Bala – y '*season ticket'*. Rhoddai hwnnw ryddid iddi deithio ar y trên bob dydd Sadwrn. Daeth Prifathro newydd i Ysgol y Cyngor, Ellis D. Jones. Sefydlodd gangen o'r Urdd yng Nglyndyfrdwy a daeth Mair yn un o'r aelodau cyntaf. Yn bymtheg oed cefnodd ag ysgol y Bala gyda dau fwriad, perffeithio'i chrefft gyda'r piano a gofalu am ei mam nad oedd yn rhy dda ei hiechyd. Yn ddeunaw oed teithiodd Mair ar y trên i Gaer i eistedd ei harholiad piano '*Associate Coleg Cerdd Llundain'*. Ar sail y llwyddiant dechreuodd roi gwersi piano. Ar derfyn y wers gyntaf un, mewn tŷ gerllaw swyddfa'r post yng Nglyndyfrdwy, sylwodd fod Ifan, llanc o grydd o Carrog, yn sefyll wrth y giat.

Teimlai Thomas Salisbury, y tad, a chwythai greigiau yn chwarel Moel Fama, dynfa'r tir a dyhead i ddilyn 'crefft gyntaf dynol-ryw' fel ei dad a'i deidiau. Ond roedd yn rhaid siarad â'r Meistr Tir, Major Tottenham. Roedd Saesneg David Salisbury yn brin a Chymraeg Major Tottenham y brinnach. Aeth mam i Blas Berwyn i ymresymu a'r tirfeddiannwr. Sicrhaodd denantiaeth fferm Fron Lwyd i'w thad. Yn ugain oed symudodd Mair a'i rhieni i fyw i'r fferm honno ym mhlwyf Llantysilio ar gyrion Glandyfrdwy. Yn ugain oed hefyd daeth Mair yn berchen beic am y tro cyntaf. O hyn allan gallai feicio i'r gwersi piano yng Ngharrog, Corwen, Glyndyfrdwy a Llangollen. Sefydlodd Ifan, y llanc o grydd, fusnes trwsio sgidiau yn Nglyndyfrdwy.

Eisteddai Mair mewn oedfa yng Nghapel Bedyddiedig Glyndyfrdwy un noson oer yn Ionawr, 1936. Nid y bregeth y tro hwnnw a wneth argraff arni ond y ffaith iddi benderfynu eistedd arholiad '*Licentiate*'.

Penderfynodd hefyd, oherwydd costau gwersi piano, y gallai gyflawni'r gwaith mewn chwe mis. Cododd yn blygeiniol i ymarfer. Gweithiai yn y tŷ a gofalu am ei mam.

Erbyn i'r haf gyrraedd treuliai chwe awr y dydd wrth y piano. Troes am Gaer unwaith eto. A'r tro hwn roedd Ifan y crydd wedi gwnïo strapiau lledr am y llyfrau gariai – Y Sonatau.

Ar y 10fed o Fedi 1938 roedd W.D.Williams (y prifardd wedi hynny) ym muarth Fron Lwyd. Roedd wedi addo i Ifan y byddai'n galw am Mair y bore hwnnw.(W.D.Williamsoed d pennaeth Ysgol Gynradd Carrog.) Cododd y briodferch yn fore iawn i lanhau'r tŷ, bwydo'r anifeiliaid a rhoi paned o de i bawb yn y gwely. Roedd rhaid dechrau'n gynnar i ddal y trên! Yna gwisgodd ffrog las – lliw ei llygaid- a'r het soser. Pan gyrhaeddodd Mair a'i thad y capel, doedd dim golwg o'r forwyn, Gwennol Awst, chwaer Ifan. Roedd y forwyn briodasol wedi mwynhau cerdded i lawr i'r sêt fawr o flaen y briodferch. Chwerthin wnaeth Mair. Cafwyd wythnos yn y Rasus Moto Beiciau yn yr Eil o Man ac Ifan yn gofalu am ei gyfaill, Robin Jac, oedd yn cystadlu yno.



Cafodd y pâr ifanc fwthyn ar rent o dri swllt yr wythnos. Y cyfeiriad swyddogol oedd Glyndwr Terrace, Carrog. Gwyddai Mair mai yma roedd safle carchar Glyndwr. Ni chlywodd air am yr arwr hwnnw o fewn muriau'r ysgolion ond fe'i magwyd yn ei hanes ar yr aelwyd gartref.

Ar set radio ail-law wrth lanhau'r grât haearn yn fferm ei rhieni y clywodd Mair gyhoeddi'r Ail Ryfel Byd. Galwyd Ifan i'r rhegoedd. Parhaodd Mair i ofalu am ei rhieni yng Nglyndyfrdwy, cadw cartref yng Ngharrog, rhoi gwersi piano (am naw ceiniog y tro – yn yr hen bres wrth gwrs), gwerthu sgidiau a geni merch.

Ar yr adeg y gellid rhagweld diwedd y rhyfel, mynegodd Ifan ei ddymuniad i brynu busnes. Ag yntau yn yr Almaen, prynodd Mair siop Sgidiau yn y Bala, a hynny cyn i Ifan weld y lle. Doedd merched ddim yn rhai blaenllaw am brynu llefydd yn yr oes honno. Pan gyrhaeddodd Ifan orsaf Carrog, Rhoddodd ei ben allan trwy ffenest y tren a gweiddi:

"Ble mae nhw? Carrog neu Bala?

"Bala!" gwaeddodd pawb. Aeth yn ei flaen am y Bala.

Yna dechreuodd Mair ar y gwaith caled o redeg busnes gyda chymorth Ifan a rhoi o'i gwasanaeth yn Salim, y Capel Bedyddiedig yn y dref. Bu 'Wrth yr Organ', yn athrawes Ysgol Sul, yn bwydo a chroesawu pegethwyr ar yr aelwyd, ac yn ddiweddarach fel Diacon.

Wedi tair blynedd ar ddeg ar hugain roedd Ifan yn barod am seibiant. Er mawr siom cafodd strôc. Bu cerdded yn anodd iawn iddo. Symudodd y ddau i'r cartref yr oedd Ifan wedi ei ddewis – Rheithordy ar lan Lyn Tegid. Plannodd Mair Gennin Pedr gyferbyn â ffenest y gegin i Ifan eu mwynhau. Galwai cymdogion yn aml am baned a sgwrs. Gofalodd Mair yn dyner am Ifan am saith mlynedd olaf ei oes. Diolchodd llawer nad effeithiodd y strôc ar ei leferydd. Gallai sgwrsio a thynnu coes hyd y diwedd.

Cafodd Mair ychydig flynyddoedd o seibiant oddi wrth ofal, a chyfle i wahodd cyfeillion i'r Rheithordy ac yn aml y sgwrsiai am ei hatgofion.

Ar garreg ei bedd yn Llanycil ger y Bala mae'r geiriau:

Carodd ei gwlad, ei hiaith a'i Harglwydd.

.



*Rhowch iddi o ffrwyth ei dwylo,*
*a bydded i'w gwaith ei chanmol yn y pyrth.*
*Diarhebion 31[31]*

# Teisen Datys Gloria

## BLASUS IAWN IAWN

- 1 Pwys o Datys
- 1 ŵy
- 1 llond llwy de Bi-carb
- 1 llond llwy de o halen
- Cwpanaid a hanner o Siwgwr
- 1 pwys blawd codi
- 2 gwpanaid (yr un gwpan) o ddŵr berw



*Llun: sbs.com.au*

Minswch neu rhowch y datys yn y Bzzzz.

Ychwanegwch y Bi-carb a'r dŵr berw a gadael i sefyll am 5 munud i oeri.

Ychwanegwch bopeth arall gan adael yr ŵy hyd y peth olaf.


Tywalltwch i mewn i un tun pwys neu ddau o rai llai – wedi eu hiro yn dda. (Gallwch ychwanegu cnau Ffrengig (*Walnuts)* of hoffwch chi cofiwch.)

Popty cymhedrol (350 gradd) am awr a chwarter.

Bydd yn mynd yn stici erbyn y dydd canlynol.

Bwytewch gyda menyn.

(*Rydyn ni'n cael y deisen hyfryd yma ambell dro yn y Cwrdd Gweddi Adfywiad ar bob yn ail nos Fawrth yn Ebeneser. Rhwng hyfrydwch y cwrdd anghymarol a darn o deisen Gloria a dished wedyn, lyfli!)*


2-7 July 2024 / 2-7 Gorffennaf 2024
BYD GWYN FYDD BYD A GANO
BLESSED IS A WORLD THAT SINGS
GENTLE ARE ITS SONGS
EISTEDDFOD
GERDDOROL RYNGWLADOL
LLANGOLLEN
INTERNATIONAL MUSICAL
EISTEDDFOD
WANTED /
MAE ANGEN
New Volunteer Stewards /
Stiwardiaid Gwirfoddol Newydd
Are you aged 16 or over? Why not become a member of our volunteer Stewarding team and enjoy working in a wonderful atmosphere of music, dance and colour!
Ydych chi'n 16 oed neu'n hyn? Beth am ddod yn aelod o'n tîm Stiwardio gwirfoddol a mwynhau gweithio mewn awyrgylch hyfryd o gerddoriaeth, dawns a lliw!
To find out more / I ddarganfod mwy
stewards@llangollen.net ☎ 01978 862 000
www.llangollen.net

# Pwy Freuddwydiai?

1. Cysgodd hwn wrth ffoi a gwelodd ystol yn llawn angylion. Pwy ydoedd, i ble roedd yn mynd a beth oedd ei glustog y noson honno?
2. Cafodd y tri yma yr un freuddwyd yr un noson. Pwy oedden nhw a beth ddywedwyd yn eu breuddwydion?
3. Gwelodd hwn saith buwch dew a saith buwch denau. Pwy ydoedd a beth oedd ystyr y freuddwyd. Ble roedd y gwartheg yn ei freuddwyd?
4. Gwelodd y brenin yma goeden enfawr yn tyfu ac roedd yn gartref i adar ac anifeiliaid y byd. Pwy oedd y brenin a phwy a esboniodd y freuddwyd iddo?
5. Saer oedd hwn ac fe ymddangosodd angel iddo yn ei freuddwyd. Pwy oedd yr angel a beth oedd ei neges? Ym mhle roedd Joseff yn byw bryd hwnnw?
6. Anfonodd hon lythyr i'w gŵr (oedd yn rhaglaw Jiwdea) pan oedd ef yn y llys yn gynnar y bore a dweud wrtho am beidio gweud rhywbeth. Beth?
7. Gwelodd Nebuchodonosor ddelw anferth yn ei freuddwyd. O beth y gwnaed y ddelw, a beth ddinistriodd hi'n llwch? Pwy esboniodd ystyr y breuddwyd?
8. Beth gafodd Joseff yn wobr am ddatrys breuddwyd Pharao?
9. Gwelodd Paul mewn breuddwyd ŵr o rywle yn gofyn iddo ddod draw i helpu. Ble roedd Paul ar y pryd a phwy oedd yn ei freuddwyd?
10. Pan gafodd Joseff freuddwyd am fynd yn ôl i Jiwdea o'r Aifft, pwy oedd y brenin newydd yn lle Herod? Aeth Joseff i rywle arall. Ble?
11. Gwelodd Ananeias angel yn dweud wrtho am fynd i weld rhywun a gweddïo drosto. Pwy roedd i fynd i'w weld a ble roedd yn aros?
12. "Cyfod Pedr, lladd a bwyta" meddai'r llais yn ei freuddwyd. Beth welodd Pedr yn dod i lawr o'r nefoedd? Ble roedd ar y pryd a faint o'r gloch oedd hi?

# Cerdd

gan

Betty Jones, Capel Penybryn, Wrecsam

**Pasg 2024**

## 1 Corinthiaid Pennod 1 Adnod18

Yr ardd oedd yn wag ac yn ddiflas
Sydd yn bellach llawn blodau a dail.
Y Cread gyhoeddodd "Daeth Gwanwyn!"
Daeth cawod a haul am yn ail.

Beth bynnag sy'n digwydd, tymhorau
Sydd yn dal i symud ymlaen,
A gobaith i fyd sy'n llawn dioddef.
Gwaith Duw sydd i'w weled ar daen.

Daeth Iesu, Fab Duw o'r gogoniant
Ei neges oedd broblem i rai.
"Cael gwared ohono sydd orau."
Aeth i'r croesbren i farw'n ddi-fai.

Credai'r gelyn mai hyn fyddai diwedd
Yr Iesu, ond nid felly y bu.
Y Groes ydoedd dechrau y cyfan
Ac agorwyd calonnau yn llu.

Dioddefodd yr Iesu dros bobun,
Y ddyled a dalodd â'i waed
Achubodd yr Arglwydd ei bobl
A golau hyd heddiw a gaed.

# Dydd Gweddi'r Byd 2024

**gan**

**Awena Jones**

**Bethel, Caergybi**

Beth fuoch chwi yn ei wneud ar ddydd Gwener Mawrth 1af? Dathlu neu efallai bod mewn Cyngerdd Gŵyl Dewi? Dathlu Dydd Gweddi'r Byd fuom ni yma yng Nghaergybi a'r Cylch. Tro Bethel y Bedyddwyr oedd cynnal yr oedfa eleni a myfi cafodd y cyfrifoldeb i wneud y trefniadau. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnal pob dydd Gwener gyntaf ym mis Mawrth, a bydd un wlad o bob cyfandir yn cael y fraint o gynhyrchu'r gwasanaeth yn ei dro. Tro Cristnogion Palestina oedd hi eleni, a diddorol iawn yw dysgu hanes, traddodiadau a ffordd o fyw Cristnogion eraill ar draws y byd. Mae'n gyfle i ni gyd-weddïo a diolch, ac mae'n agoriad llygaid am yr hyn sydd gennym ni a'i gymharu ag eraill ar draws y byd.



*Awena Jones gyda'r cactai*

Pan ym Methel byddaf yn gwneud ymdrech i addurno rhan o'r capel yn unol â'r nodiadau paratoi. Nid oedd yn rhy anodd eleni - amryw fasgedi, ffrwythau sitrws, bocs te jasmin, pabi, olew olewydd - ond wrth ddarllen ymlaen dyma fy llygaid yn goleuo wrth weld y gair cactws! Cactws ym Mhalestina? O'r Americas mae'r rhain yn tarddu ac mae gen i dipyn o gasgliad gartref ac yn gwybod am y defnydd sydd yn cael ei wneud ohonynt. Mae'r cactws ym Mhalestina yn cael ei ddefnyddio fel cloddiau a ffiniau amaethyddol, yn lle wal gerrig er bod digon ar gael! Maent yn ffermio defaid a geifr yn lleol, ac mae'r ffiniau mwy na thebyg yn eu cadw allan o erddi bwyd.

Dau ddosbarth arferai gael eu defnyddio yno - Agave ac Optunia, ond mae natur y ddau yn wahanol. Dosbarth sy’n byw yn hir yw’r Agave (dros 40 o flynyddoedd) gyda phwynt miniog ar flaen pob deilen ac ambell un gyda bachau miniog i lawr ochrau’r ddeilen hefyd. Cymerwch ofal gan fod y rhain yn tynnu gwaed! Maent yn gallu tyfu hyd at 12 troedfedd, ond unwaith yn unig fyddant yn blodeuo cyn marw.

Adnabyddir yr Optunia gydag enw cyffredin - Clustiau Cwningod (oherwydd ei siâp), a byddant yn tyfu dros 10 troedfedd o uchder. Gwelir arnynt flodau’n flynyddol a gellwch fwyta’r ffrwyth. Rhaid dangos parch tuag at yr Optunia gan fod nodwyddau drosto. Ond digon tila yw’r nodwyddau hyn, ac nid rhai cadarn fel yr Agave. Maent yn ddatblygiad naturiol i amddiffyn y planhigyn. Wrth gyffwrdd ar y nodwyddau maent yn torri, a mynd i’r croen a phethau anodd ydynt i’w gweld a rhaid eu tynnu allan yn ofalus gyda tweezers!

Dangoswyd pedwar gwahanol Agave ac un Optunia yn ystod y gwasanaeth. Babanod nid y rhai mawr sydd gen i, gan na fuaswn yn gallu eu cludo yn y car! A gallwch weld rhai o’r babanod yn y llun.

Da oedd cael bod yn rhan o’r gwasanaeth a’r trefniadau, a diolchwn i Gristnogion Palestina am yr adnoddau arweiniol. Gadewch i ninnau ddilyn eu hesiampl a gwneud “y pethau bychain” fyddai o gymorth i’r anghenus a chawn weld dydd nad oes ffiniau creulon pigog a gwaedlyd yn caethiwo trigolion y byd.

---

## Dywediadau

Dyw’r Optimist yn gweld dim ond golau gwyrdd. Dyw’r Pesimist yn gweld dim ond golau coch. Mae Dyn Doeth yn ddall i’r lliwiau yma.

Gall Caredigrwydd gyflawni llawer. Fel y mae’r haul yn toddi’r rhew felly mae camddealldwriaeth, diffyg ffydd a chasineb yn toddi yn wyneb caredigrwydd.

Gwnewch rywbeth rhyfeddol. Wyddoch chi byth, efallai bydd pobl yn eich copio!

*Albert Schweitzer.*

# Atebion Cwis Pwy Freuddwydiai

1. Jacob yn Bethel a'i ben ar garreg oedd y breuddwydiwr. Roedd ar ei ffordd am Haran lle roedd ei ewyrth yn byw, Genesis 28.
2. Y Doethion oedd y rhain yn cael rhybudd i beidio dychwelyd at Herod. Mathew 2.
3. Pharao oedd y breuddwydiwr ac roedd y gwartheg y cynrychioli blynyddoedd. Roedd y gwartheg ar eu ffordd i fyny o'r afon Neil. Joseff wrth gwrs oedd y dehonglydd. Genesis 41.
4. Nebuchodonosor, brenin Babilon oedd hwn a Daniel a esboniodd yr ystyr. Daniel 4.
5. Gabriel oedd yr angel ac roedd yn dweud wrth Joseff am briodi Mair. Roedd Joseff yn byw yn Nasareth ar y pryd. Mathew 1.
6. Gwraig Peilat yw hon ac roedd wedi cael breuddwyd am Iesu ar nos Iau Cablyd. Mae'n rhybuddio ei gŵr i beidio gwneud dim niwed iddo. Mathew 27
7. Roedd y ddelw o aur ac arian a phres a haearn a chlai. Daeth carreg fach o'r mynydd a'i chwalu'n llwch. Daniel esboniodd ei hystyr. Daniel 2
8. Cafodd Joseff ei wneud yn ail i Pharao ei hunan, ac ef oedd yn gyfrifol am gasglu a storio gwenith y saith mlynedd dda. Genesis 41
9. Gŵr o Facedonia (gwlad Groeg) oedd yn gofyn am help ac roedd Paul yn cysgu yn Nhroas ar y pryd. (Troy, y fan â gysylltir a'r ceffyl pren!) Dyma pryd y gwahoddwyd yr Efengyl i Ewrop gyntaf. Actau 16
10. Y brenin oedd Archeleus, ac am nad oedd yn ddyn hawddgar, aeth Joseff a'i deulu bach i Nasareth yn y gogledd. Mathew 2
11. Roedd Ananias i fynd i weld Saul a oedd yn aros yn yr Heol a elwir Uniawn, yn nhy Jiwdas. Actau 9
12. Roedd Pedr wedi gweld llian mawr yn dod i lawr dair gwaith gyda phob math o anifeiliaid ynddo. Roedd ar y pryd yn aros yn nhŷ Simon yn Joppa ac roedd wedi mynd i gael nap cyn cinio. Actau 10



# Adroddiad yr Ysgrifennydd

Y Chw. Bonni Davies

On'd yw amser yn hedfan? Pan fyddwch yn darllen y rhifyn yma o Cwlwm, byddwn yn y pumed mis o'r flwyddyn hon yn barod. Ble mae'r amser yn mynd, dywedwch? Mae'n anodd credu hefyd, pan ddaw mis Gorffennaf eleni, y bydd deng mlynedd wedi hedfan heibio oddi ar i'r Mudiad ddathlu ei ben-blwydd yn 70 oed. Aeth llawer o ddŵr o dan y bont oddi ar hynny, collwyd nifer o'n ffyddloniaid, daethpwyd trwy'r pandemig dieflig, ond trwy ras Duw gwelwyd hefyd eraill yn camu i'r adwy, llywyddion newydd yn cael eu hurddo, ac eglwysi eraill i ymweld â hwy. Er gwaethaf pawb a phopeth, mae Mudiad y Chwiorydd, fel cân enwog Dafydd Iwan, "Yma o Hyd".

**Cyfarfodydd Blynyddol 2023** - Aeth wyth mis heibio ers i ni gael y pleser o gyfarfod gyda'n gilydd yn eglwys y Graig Castell Newydd Emlyn ar gyfer ein cyfarfod blynyddol ond mae'n siŵr fydd pawb yn cofio am y croeso twymgalon oedd yn ein disgwyl yno. Y rheswm dros ymgynull yn Y Graig ar 13eg Medi oedd am mai gweinidog yr eglwys honno, y Parchg Sian Elin Thomas, oedd yn cael ei dyrchafu i Lywyddiaeth y Mudiad am 2023-2024. Roedd hi hefyd yn weinidog ar ddwy eglwys arall, Ebeneser Dyfed, yn sir Benfro, a Phenybont, Llandysul, ac roedd yr eglwysi rheini hefyd yn rhan o'r croeso. Cafwyd dwy oedfa arbennig iawn o dan y thema "Un Eglwys". Yn ei hanerchiad o'r gadair rhannodd Sian Elin gyda'r gynulleidfa y neges mai er bod pawb yn yr eglwys yn wahanol, fod gan bob un rywbeth i'w gynnig a rhyw rôl i'w chyflawni wrth adeiladu'r eglwys heddiw. Heriodd y gynulleidfa hefyd i gymryd y gwahaniaethau fel cryfderau ac nid fel gwendidau, am mai NI yw traed a dwylo Crist ar y ddaear. Parhawyd gyda'r thema yn oedfa'r hwyr pan wahoddwyd panel o bedair chwaer i ateb llu o gwestiynau gan gynnwys "A oes lle i enwadaeth yng Nghymru".

Roedd y Parchedigion Deb Stammers, Carys Hamilton, Beti Wyn James a Mrs Helen Gibbon i gyd o wahanol enwadau a diddorol iawn oedd clywed eu hatebion i'r cwestiynau heriol a daflwyd atynt gan y llywydd. Cyfoethogwyd y ddwy oedfa hefyd gan eitemau cerddorol hyfryd gan blant Ysgol y Ddwylan yn y prynhawn a Chôr Crymych yn yr hwyr. Bu'n gyfle hefyd i gyfarfod ag is-lywydd y Mudiad, y Parchg Deb Stammers ac i Mrs Ruth Davies gamu lawr o'r llywyddiaeth.

**Cynhadledd Chwiorydd Bedyddwyr Ewrop yn Latfia** – Dair wythnos yn ddiweddarach digwyddodd rhywbeth cyffrous iawn! Cafodd Mudiad y Chwiorydd gynrychiolaeth yng nghynhadledd Ewrop a hynny am y tro cyntaf oddi ar 2008. Diolchir o galon i Ruth ac Eleri am ein cynrychioli ac i Undeb Bedyddwyr Cymru am y nawdd. Diolch hefyd i'r ddwy ysgrifennu'r hanes ar gyfer y rhifyn hwn.

**Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd** – Mis yn ddiweddarach, ar y 6ed Tachwedd, cafodd chwiorydd Bedyddiedig Cymru y cyfle i uno mewn gweddi gyda chwiorydd o Fedyddwyr ar draws y byd o dan y thema "Anadl Bywyd". Diolchir i'r Parchg Jill Tomos unwaith eto am addasu a chyfieithu'r oedfa ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru. Bu wrth y gwaith am flynyddoedd lawer ac mae dyled y Mudiad yn fawr iddi. Diolchir hefyd i bawb a ddaeth ynghyd i gynnal oedfa mewn saith gwahanol ardal gyda'r canlyniad i £626.50 o gasgliad gael ei anfon ar gyfer prosiectau ar draws y byd.

**Lansio 'Codi'r Llen'** – Bu'n siom na lwyddwyd i lansio'r llyfr a gyfieithwyd gan Ruth Davies a'i chriw yng nghyfarfodydd blynyddol 2022 a 2023 ond hyfrydwch oedd deall i'r gyfrol hardd gael ei lansio yn y Tabernacl Caerdydd cyn diwedd Tachwedd. Llongyfarchiadau mawr ar y gampwaith. Os nad ydych eto wedi prynu un, ewch amdani! Mae rhai ar gael gan Ruth, Bonni ac Aled Davies - ac wrth gwrs yn y siopau.

**Aelodaeth o'r Mudiad** - Bydd ffurflenni ymuno â Mudiad y Chwiorydd yn cael eu hanfon allan ddechrau'r flwyddyn ac er i'r eglwysi sy'n aelodau o'r Mudiad leihau, rydym yn falch iawn o'r

rhai sy'n parhau i fod yn ffyddlon ac sy'n parhau felly i gadw cysylltiad drwy'r Cwlwm a'r Dydd Gweddi ac yn wir a fydd yn derbyn pob gwybodaeth ar hyd y flwyddyn.

**Pwyllgorau** – Cyfarfod dros y we bu hanes y Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth a hynny am 6 o'r gloch yr hwyr – rhywbeth hollol newydd i'r pwyllgor. Yn yr hwyr fydd y cyfarfod nesaf hefyd, gan roi gwell cyfle i reini sy'n gweithio. Bydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, a gynhelir am 1.30yp ar 4ydd Gorffennaf, yn cael ei gynnal eleni yn Neuadd Pantyfedwen Aberystwyth gan roi'r dewis o ymgynull wyneb yn wyneb neu ar y we.

**Mai a Mehefin** – Cyn hynny fe fydd llawer o'r aelodau wedi teithio i Pentref, Pontnewydd ar Wy ar y cyntaf o Fai i Gyfarfod Blynyddol y Senana, lle bydd ein llywydd, y Parchg Sian Elin Thomas yn dwyn cyfarchion ar ran y Mudiad. Bydd cyfle i glywed llais y Mudiad hefyd yng nghynhadledd Undeb Berdyddwyr Cymru yng Nghroesgoch ar 25ain a 26ain Mehefin pan fydd Ruth ac Eleri yn adrodd hanes eu hymweliad â Latfia, a Deb yn gwahodd pawb i Ynys Môn ym mis Medi.

**Glyn Nest** – Dydd Mercher olaf Awst yw dyddiad arferol Dydd Agored Glyn Nest ac mae hwnnw'n disgyn eleni ar Awst 28ain. Rhowch y dyddiad yn eich dyddiaduron nawr! Edrychir ymlaen yn eiddgar at groesawu pawb yno o bob rhan o Gymru ac fe fydd ein llywydd unwaith eto'n dwyn cyfarchion ar ein rhan. Mae cysylltiad agos iawn rhwng y Mudiad â Glyn Nest a bydd yn ceisio cefnogi cymaint ag y bo modd. Penderfynodd y Pwyllgor Cyffredinol gyflwyno £1,000 o rodd eleni eto.

**Ysgrifennydd y Mudiad** – Rydym yn parhau i chwilio am Is-ysgrifennydd a fydd yn camu o dipyn i beth i esgidiau'r ysgrifennydd. Byddai'n braf derbyn enwau neu wirfoddolwr a byddem yn falch i glywed oddi wrthych naill ai trwy e-bost (bonniletitia@gmail.com) neu ar 01239 820333. Chi'n adnabod eich bobl ac mae'n siwr bod rhywun o fewn eich eglwys neu'ch Cymanfa a allai gamu i'r rôl.

**Gwau a gwnïo** - Atgoffir pawb bod yr ymgyrchoedd yn parhau ac estynnir diolchgarwch mawr i bawb a fu wrthi'n ddiwyd ar hyd y flwyddyn. Os nad ydych chi eto wedi bod yn gwau neu wnïo, yna ewch ati nawr ar fyrder. Mae gwybodaeth ar gael gan yr ysgrifennydd.

**Cwlwm** - Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu i'r ddau rifyn fydd yn dod allan bob blwyddyn. Diolch arbennig iawn i'r Golygydd Einir Jones am ei gwaith a'i brwdfrydedd ac i bawb sy'n gyfrifol am eu dosbarthu ar draws Cymru.

**Cyfarfod Blynyddol 2024** – Daw'r adroddiad i ben fel y dechreuodd, gyda chyfarfodydd Blynyddol y Mudiad. Cynhelir y cyfarfodydd eleni yng nghapel y Taberncl Llanerchymedd, Ynys Môn ddydd Mercher, 11eg Medi am 2.00yp a 5.30 yp gyda the yng Nghaffi'r Stesion rhwng y ddau gyfarfod. Pob dymuniad da i'r Parchg Deb Stammers wrth iddi gamu i'r llywyddiaeth ac i Mrs Gret Evans, Cymanfa Penfro, a fydd yn camu i'r is-lywyddiaeth. Diolch hefyd i'r Parchg. Sian Elin Thomas a fydd erbyn hynny wedi ein harwain ar hyd y flwyddyn.

---

## Mudiad Chwiorydd Caerfyrddin a Cheredigion



*Llun: www.bbc.co.uk/news/uk-*

Bydd y cyflwynydd enwog ar S4C, Siân Thomas, yn treulio noson yn ein cwmni ar **Nos Fercher, Mehefin 19, am 7:00 o'r gloch** yn Ebeneser, Rhydaman.

**Croeso i bawb**